Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Dolgarrog
# Ysgol Dolgarrog,
# Ffordd Conwy,
# Dolgarrog,
# Conwy,
# LL32 8QE

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2012**

**gan**

**Wil Williams**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 21/12/2012**

## Cyd-destun

Sefydlwyd Cylch Meithrin Dolgarrog oddeutu 36 mlynedd yn ôl ym mhentref Dolgarrog yn Nyffryn Conwy. Mae'r lleoliad yn darparu addysg cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant pentref Dolgarrog a rhan o'r ardal wledig o'i gwmpas. Caiff yr ardal ei disgrifio fel un nad yw'n ffyniannus nac ychwaith o dan anfantais economaidd a chymdeithasol.

Mae'r lleoliad yn cyfarfod mewn ystafell ddosbarth a neilltuwyd ar ei gyfer yn Ysgol Dolgarrog. Caiff plant o bob gallu a chefndir eu derbyn i'r lleoliad. Yn ystod yr arolygiad, nid oedd yr un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol nac o dras ethnig yn mynychu'r lleoliad.

Darperir sesiynau o ddwy awr a deng munud am bum diwrnod yr wythnos ar gyfer plant dyflwydd a hanner i bedair oed, er bod y nifer o sesiynau a fynychir gan unigolion yn amrywio yn ôl dymuniad rheini. Ar hyn o bryd, mae tri phlentyn pedair oed ynghyd â phedwar plentyn tair oed wedi'u cofrestru yn y lleoliad. Caiff un plentyn tair oed ei ariannu gan y Bartneriaeth.

Saesneg yw'r iaith a siaredir gartref gan bron bob plentyn. Nid oes yr un plentyn yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Prif gyfrwng addysgu a dysgu'r lleoliad yw Cymraeg.

Mae'r ddwy ymarferydd sy'n cefnogi addysg y plant wedi'u cymhwyso'n briodol i addysgu'r blynyddoedd cynnar.

Wedi iddynt orffen eu cyfnod yn y lleoliad, bydd bron pob plentyn yn parhau gyda'u haddysg yn Ysgol Dolgarrog.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru yn Ionawr 2012. Dyma ei arolygiad cyntaf gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad cyfredol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y cwricwlwm yn diwallu anghenion a diddordebau'r plant o'r holl ystod gallu a'u galluogi i wneud cynnydd da;
- darpariaeth effeithiol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu;
- addysgu medrus yn creu amgylchedd ysgogol, heriol a chyffrous sy'n annog ymglymiad yr holl blant;
- gwybodaeth asesu'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol ar gyfer cynllunio i'r dyfodol;
- trefniadau effeithiol ar gyfer cefnogi iechyd a lles plant; a bod
- y lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff pob plentyn fynediad cyfartal at bob maes dysgu a gweithgareddau.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- gan yr arweinydd weledigaeth ac amcanion strategol clir ar gyfer datblygu'r lleoliad;
- trefniadau cadarn ar gyfer cynnal arfer dda a rhoi gwelliannau ar waith;
- y lleoliad yn datblygu'n dda fel cymuned ddysgu gref;
- ystod dda o weithgareddau partneriaeth sy'n cyfrannu'n gryf at gyflawniadau a lles plant; ac
- ymarferwyr yn agored iawn i syniadau newydd ac i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio.

## Argymhellion

A1 Datblygu ymhellach rôl y pwyllgor rheoli fel cyfaill beirniadol i'r lleoliad; a.

A2 hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o draddodiadau diwylliannau eraill yng Nghymru.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Trwy gydweithio effeithiol, llwydda'r arweinydd a'r ymarferydd i gynllunio cwricwlwm sy'n diwallu anghenion a diddordebau'r plant o'r holl ystod gallu. Mae hyn yn galluogi pob unigolyn i wneud cynnydd da tuag at fodloni deilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r gweithgareddau ysgogol a hyblyg a gynllunnir yn hyrwyddo ymgyfraniad pob plentyn yn llwyddiannus ac yn sicrhau y cânt rôl weithredol yn eu dysgu. Trwy gynllunio tymor hir systematig, sicrheir wrth i blant symud trwy'r Cyfnod Sylfaen, bod y cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol

Mae natur ymarferol a phenagored y profiadau dysgu a baratoir, yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i blant ffurfio perthynas gadarnhaol â'i gilydd ac i feithrin synnwyr o barch a goddefgarwch tuag at eraill. Caiff plant eu hannog i fentro ac arbrofi â phrofiadau newydd ac i archwilio eu hamgylchedd yn hyderus a dod yn ddysgwyr annibynnol. Mae'r profiadau a ddarperir dan do ac yn yr awyr agored yn darparu cyfleoedd da i blant ddatblygu eu medrau corfforol a chreadigol ac i gaffael gwell dealltwriaeth o'r byd y maent yn byw ynddo.

Trwy gynllunio gofalus a systematig, sicrha'r lleoliad bod plant yn caffael y medrau llythrennedd, cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu angenrheidiol ar gyfer eu galluogi i fanteisio ar eu holl brofiadau dysgu. Trwy brofiadau uniongyrchol, caiff plant gyfleoedd da i ddatblygu eu medrau meddwl ac i ddatblygu gwahanol strategaethau ar gyfer datrys problemau sydd o bwys iddynt hwy.

Caiff plant eu hannog yn gyson gan ymarferwyr i ddefnyddio'r Gymraeg gymaint ag y bo modd yn eu dysgu ac wrth gyfathrebu gyda phawb arall yn y lleoliad. Rhoddir bri ar ddathlu traddodiadau Cymreig ac ar godi ymwybyddiaeth plant o'u Cymreictod.

Mae'r lleoliad yn gweithredu'n gynaliadwy ac yn sicrhau bod gan blant rôl weithredol yn ei threfniadau ailgylchu ac arbed ynni. Er bod y lleoliad yn dathlu arferion rhai o ddiwylliannau eraill yng Nghymru, megis y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, nid yw'r agwedd hon wedi llawn ddatblygu.

**Addysgu: Da**

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth drylwyr o ofynion y Cyfnod Sylfaen ac maent yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac effaith anghenion dysgu ychwanegol ar ddatblygiad. Llwyddant i greu amgylchedd ysgogol, heriol a chyffrous y tu mewn a'r tu allan, sy'n annog ymglymiad, cyfranogiad a mwynhad yr holl blant. Cedwir cydbwysedd gofalus rhwng gweithgareddau wedi'u dewis gan y plentyn a gweithgareddau wedi'u harwain gan ymarferwyr. Caiff yr arferiad o ddilyn plant unigol trwy gymryd rhan yn eu chwarae, ei ddefnyddio'n effeithiol gan ymarferwyr i herio ac ymestyn dealltwriaeth plant unigol ac i symud dysgu yn ei flaen. Mae ymarferwyr yn disgwyl llawer gan bob plentyn ac yn deall pwysigrwydd rhoi cyfleoedd i blant ddysgu trwy chwarae a dilyn eu diddordebau eu hunain. O ganlyniad, mae unigolion yn aml wedi llwyr ymgolli yn eu tasg ac yn defnyddio eu dychymyg mewn ffordd greadigol a hynod ddiddorol wrth greu sefyllfaoedd dychmygus. Pan gyfyd achosion prin o ymddygiad anaddas, bydd staff yn ymyrryd mewn ffordd dawel a chadarn.

Mae'r trefniadau cynhwysfawr ar gyfer asesu cynnydd plant. Caiff plant eu hasesu ar fynediad i'r lleoliad a chedwir cofnod systematig o'u datblygiad a'u cynnydd ym mhob maes dysgu trwy gydol eu haddysg feithrin. Gwna ymarferwyr ddefnydd cynyddol o strategaethau asesu ar gyfer dysgu wrth arsylwi plant ar dasgau a chofnodi eu cynnydd mewn dysgu. Gwnânt ddefnydd pwrpasol o'r wybodaeth asesu a gofnodir ar gyfer cynllunio i'r dyfodol a gosod targedau gwelliant i blant unigol.

Mae'r arfer o gynnwys rhieni yn y prosesau asesu yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o gynnydd eu plant a'r hyn y gallant ei wneud i'w helpu i wella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan y lleoliad bolisïau a threfniadau priodol ar gyfer hyrwyddo byw'n iach a lles plant. Darperir byrbrydau iach i'r plant yn ddyddiol ac mae'r lleoliad yn rhan o gynllun brwsio dannedd sy'n hybu datblygiad iechyd a lles. Caiff pob plentyn gyfle yn ddyddiol i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol naill ai yn neuadd yr ysgol neu yn yr ardal y tu allan. Mae'r ymarferwyr yn ofalus iawn o ddiogelwch pob plentyn ac yn sicrhau nad oes unrhyw fygythiad i'w hiechyd a'u lles. Mae pob plentyn yn hyderus wrth ofyn i oedolyn am gefnogaeth neu arweiniad ac mae ymarferwyr yn gofalu eu bod yn rhydd o unrhyw aflonyddu neu fwlio gan blant eraill. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae darpariaeth gynhwysfawr yn y lleoliad ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant. Yn ystod eu hymwneud dyddiol â phlant, mae ymarferwyr yn pwysleisio'n gryf yr angen i bawb fod yn garedig tuag at ei gilydd, i fod yn onest a theg ac i ymddwyn mewn ffordd gyfrifol. Mae hyn yn help mawr i'r plant ddysgu gwahaniaethu rhwng yr hyn sy'n iawn a'r hyn sydd ddim yn iawn. Mae'r cyfleoedd rheolaidd i blant trwy 'Helpwr Heddiw' i ymgymryd â chyfrifoldebau ac i wneud dewisiadau eu hunain ynghylch eu dysgu yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at eu datblygiad. Mae trefniadau anwytho effeithiol, ynghyd â pherthynas agos â rhieni, yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n gyflym yn y lleoliad.

Pe bai angen, mae trefniadau effeithiol ar gyfer sicrhau bod plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn cefnogaeth ac arweiniad priodol gan y lleoliad a gwasanaethau arbenigol.  Mae'r arweinydd yn gyfarwydd iawn â'r trefniadau ar gyfer galw am gymorth proffesiynol i blant a rhieni.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff pob plentyn fynediad cyfartal at bob maes dysgu a gweithgareddau a ddarperir ar eu cyfer.  Mae pwyslais cryf ar ddatblygu agweddau goddefgar a sicrhau bod plant a staff yn rhydd o ymyrraeth. Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr sydd â gwybodaeth ac arbenigaeth ddigonol i addysgu pob agwedd o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae ymarferwyr yn llwyddo i greu amgylchedd symbylus lle y gall pob plentyn fanteisio'n llawn ar y profiad dysgu a datblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol.

Mae cyflenwad helaeth o adnoddau o ansawdd da ar gyfer pob maes dysgu ac maent wedi'u cyfatebu'n ofalus i anghenion datblygu a dysgu pob unigolyn.  Caiff adnoddau yn y gymuned eu defnyddio'n effeithiol iawn i gefnogi dysgu yn y dosbarth.

Er o faint cymharol fechan, mae'r ystafell ddosbarth yn ddigonol ar gyfer y nifer o blant sy'n mynychu'r lleoliad.  Mae o ansawdd da ac yn cael ei defnyddio'n llawn gan blant ac ymarferwyr.  Ychwanegir yn sylweddol at brofiadau dysgu plant gan y defnydd a wna'r lleoliad o neuadd yr ysgol a'r ardal chwarae y tu allan.

| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae gan yr arweinydd weledigaeth ac amcanion strategol clir ar gyfer datblygu'r lleoliad a thrwy gydweithio clos gyda'r ymarferydd, mae'n archwilio sut i'w rhoi ar waith.  Mae'r ddwy aelod staff yn cyflawni eu rolau yn effeithiol ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ran perfformiad.  Mae'r ethos a grëir yn y lleoliad yn herio pawb i wneud y gorau gallant er mwyn galluogi pob plentyn i weithio i'w lawn botensial mewn amgylchedd cefnogol a diogel.  Trefnir pob sesiwn yn ofalus er mwyn sicrhau bod plant a staff yn defnyddio'u hamser yn effeithiol.  Mae system rheoli perfformiad addas sy'n helpu staff i werthuso a gwella eu hymarfer ac i adnabod eu hanghenion proffesiynol.  Mae'r berthynas gadarnhaol dros ben sydd gan staff y lleoliad gyda phlant a'r rhieni yn cyfrannu'n sylweddol at greu ymdeimlad o gymuned.

Mae gan y pwyllgor rheoli ddealltwriaeth addas o'i rôl ac mae'n gweithio'n galed i gefnogi blaenoriaethau'r lleoliad.  Bydd swyddogion y pwyllgor yn ymweld â'r lleoliad yn rheolaidd ac yn gwneud yn siŵr bod unrhyw gwynion yn cael eu datrys a bod y lleoliad yn cydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol.  Fodd bynnag, nid oes ganddynt ran digon gweithredol yn y trefniadau hunan-arfarnu, ac annatblygedig yw eu rôl fel ffrind beirniadol i'r lleoliad.

Mae'r lleoliad yn llwyddiannus iawn wrth fodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol sydd a wnelont â'r Cyfnod Sylfaen. Mae hyn wedi deillio ar nifer o flaengaredd allweddol ac yn arbennig, gweithredu dulliau asesu ar gyfer dysgu.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y lleoliad yn drylwyr, a chydag anogaeth yr arweinydd, yn hunan-arfarnu ac yn archwilio ffyrdd i wella yn barhaus. Mae trefniadau cadarn ar gyfer cynnal arfer dda a rhoi newid ar waith mewn meysydd sydd angen gwelliant. Mae hunan-arfarniad yn rhoi ystyriaeth ofalus i farn rhieni ac yn manteisio'n sylweddol ar gyngor proffesiynol athrawes gefnogol yr awdurdod lleol. Gall ymarferwyr ddangos sut maent, trwy hunan-arfarnu, wedi arwain at welliannau gweladwy yn y ddarpariaeth ac mewn cynllunio ac asesu yn benodol.

Mae adroddiad hunan-arfarnu'r lleoliad o ansawdd da ac yn nodi'n glir gryfderau'r lleoliad yn ogystal â'r agweddau sydd angen gwelliant pellach. Gwnaeth y lleoliad ddefnydd effeithiol iawn o wybodaeth hunan-arfarnu ar gyfer llunio cynllun datblygu manwl sy'n nodi sut y bwriedir rhoi gwelliannau ar waith.

Mae ymarferwyr yn cael cefnogaeth gref gan raglen datblygiad proffesiynol parhaus a ddarperir yn bennaf gan yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. Mae hyn wedi'u galluogi i gaffael gwybodaeth a medrau newydd ac i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Mae'r sesiynau hyfforddi hefyd yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i staff rannu eu harfer gydag ymarferwyr o leoliadau eraill.

Mae'r lleoliad yn datblygu'n dda fel cymuned ddysgu gref. Mae'r ymarferwyr yn agored iawn i syniadau newydd ac maent yn barod i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio a rhannu gwybodaeth a syniadau ymhlith ei gilydd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn ymgymryd â rôl flaenllaw i ddatblygu arferion cydweithio ac wedi sefydlu ystod dda o weithgareddau partneriaeth sy'n cyfrannu'n gryf at gyflawniadau a lles plant ac yn atgyfnerthu'r ddarpariaeth.

Cymer yr ymarferwyr gamau gweithredol i gynnwys rhieni yn y lleoliad. Caiff y rhieni eu hysbysu'n rheolaidd am weithgarwch y lleoliad a derbyniant becyn gwybodaeth cynhwysfawr ar fynediad eu plant i'r lleoliad. Nodwedd arbennig yw'r cyngor a'r adnoddau a gânt ar gyfer helpu eu plant i ddysgu Cymraeg.

Mae cysylltiadau cryf rhwng y lleoliad a'r ysgol gynradd, gyda'r lleoliad yn elwa'n sylweddol o barodrwydd yr ysgol i rannu'r ardal chwarae y tu allan yn ogystal â'r neuadd ac adnoddau dysgu, megis llyfrau, gyda'r lleoliad. Mae trefniadau clir ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth asesu gyda'r plant ar eu mynediad i'r ysgol.

Mae'r cydweithio agos rhwng y lleoliad ag athrawes gynhaliol yr awdurdod lleol yn cyfrannu'n gadarnhaol iawn at wella ansawdd y ddarpariaeth a safonau. Mae'r ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol, yn rhannu gwybodaeth am blant ac yn cydgynllunio datblygiad y lleoliad. Mae cysylltiadau priodol gyda'r gymuned, gydag unigolion, megis nyrs, yn dod i'r lleoliad i rannu eu profiadau gyda'r plant. Gwna'r

cysylltiadau hyn gyfraniad pwysig tuag at gyfoethogi gwybodaeth a phrofiadau dysgu plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae digon o adnoddau o ansawdd da ar gyfer cefnogi dysgu plant ac mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol. Caiff staff eu rheoli'n dda er mwyn gwneud y defnydd gorau posib o'u hamser a'u harbenigedd. Mae'r trefniadau cynhwysfawr sydd ar gyfer bodloni anghenion datblygu ymarferwyr yn sicrhau bod ganddynt wybodaeth gyfoes am ddatblygiadau diweddar yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth fanwl iawn o'u cyllideb ac maent yn hynod o weithgar yn trefnu gweithgareddau codi arian er mwyn cynnal a datblygu'r lleoliad. Caiff penderfyniadau gwariant eu harfarnu'n ofalus i wneud yn siŵr eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar safonau cyflawniad, cynnydd a lles plant. Mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**
Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron i rieni gan mai nifer fach o ymatebion a ddaeth i law (llai na 10).

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae'r plant yn dweud eu bod yn hapus yn y lleoliad a'u bod yn hyderus i droi at unrhyw oedolyn i ofyn am gyngor neu arweiniad.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |